

KENYON (TEULU)

Dechreuodd cysylltiad teulu Kenyon â Chymru gyda phriodas (c. 1694) THOMAS KENYON (1668 - 1731), pedwerydd mab ROGER KENYON, Peel, Lancashire, a Catherine (ganwyd 1660), merch ac aeres Luke Lloyd (bu farw 1695), Bryn, plwyf Hanmer, Sir y Fflint; yr oedd teulu Luke Lloyd wedi ymsefydlu yng nghantref Maelor Saesneg ers blynyddoedd lawer ac yn hawlio eu bod yn disgyn o **Rodri Mawr**. Bu Luke Lloyd yn ymladd ym mhlaidd y Senedd yn y Rhyfel Cartrefol; y mae llythrau a ysgrifennwyd ganddo ac ato yn 1644 wedi eu cadw. Rywbryd yn ystod teyrnasiad Siarl II cafodd ei garcharu gyda **Philip Henry** am anghydfurfio.

Mab hynaf Thomas a Catherine Kenyon oedd

LLOYD KENYON (1696 - 1773)

Ganwyd 17 Mawrth 1696, cafodd ei addysg yng Ngholeg Sant Ioan, Caergrawnt, a phriododd, ym mis Tachwedd 1730, Jane, merch a chyd-aeres Robert Eddowes, Eagle Hall, sir Gaer, ac Anne, merch ac aeres y Parch. Richard Hilton (bu farw 1706), Gredington, ficer Hanmer, 1662-1706. Prynodd Hilton Gredington gan **Syr John Hanmer** ar 9 Mai 1678, ac ymddengys i deulu Kenyon symud yno yn gynnar wedi i'r ficer farw yn 1706.

LLOYD KENYON II (1732 - 1802)

Ail fab Lloyd Kenyon I, ganed yn Gredington ar 5 Hydref 1732. Cafodd ei addysg yn ysgol Rhuthyn, ac fe'i rhwymwyd (1749) i ddysgu'r gyfraith gyda rhyw Tomkinson, cyfreithiwr yn Nantwich (Caerlleon). Ar 7 Tachwedd 1750 cafodd ei dderbyn gan y Middle Temple, eithr parhaodd ei gysylltiad â Tomkinson hyd nes yr aeth i Lundain yn 1755. Ar ôl dyfod yn fargyfreithiwr (7 Chwefror 1756), bu'n dibynnu gan mwyaf ar flyydd-dâl o £80 a gâi gan ei dad ac ar hynny o waith a gâi gan Tomkinson a chymddogion caredig eraill, hyd y daeth i adnabod Edward Thurlow, a wnaethpwyd yn arglwydd ganghellor ychydig yn ddiweddarach; yr oedd Thurlow yn falch o gael help 'gwas' a oedd mor drylwyr ac mor barod i ymboeni ag yr oedd Kenyon. Yn fuan wedi hynny daeth Kenyon i gael enw da fel bargyfreithiwr, ac ar gymhellad Thurlow fe'i gwnaethpwyd yn 'King's Counsel' (30 Mehefin 1780). Cymerodd y llw fel prif farnwr Caer, Fflint, Dinbych, a Threfaldwyn ar 4 Awst; ar 13 Tachwedd fe'i galwyd i fainc y Middle Temple. Ym mis Medi yr un flyyddyn etholwyd ef yn aelod seneddol dros Hindon, Wiltshire, a pharhaodd i gynrychioli'r etholaeth honno hyd 1784 pryd y daeth yn aelod dros Tregony a gynrychiolodd hyd nes y'i dyrchafwyd i fod yn farwn. Ym mis Mawrth 1782 dewiswyd ef yn 'Attorney General,' swydd a lanwodd bron yn ddiball hyd nes y daeth yn 'Master of the Rolls' ar 30 Mawrth 1784. Gwnaethpwyd ef yn aelod o'r Cyfrin Gyngor ar 12 Ebrill ac yn farwnig ar 28 Gorffennaf 1784. Dilynodd yr arglwydd Mansfield fel prif farnwr Llys Maicn y Brenin ar 4 Mehefin 1788, a gwnaethpwyd ef yn farwn ar y nawfed dydd o'r un mis; ei deitl oedd 'Lord Kenyon, Baron of Gredington, co. Flint.'

Yn ystod ei yrfa hir fel bargyfreithiwr bu â fynnai'r arglwydd Kenyon 1af â llawer o dreialon neu achosion diddorol-bu'n arwain y bargyfreithwyr a fu'n amddiffyn Lord George Gordon yn 1780, fel barnwr efe oedd llywydd y llys pan wŷsiwyd Stockdale am athrod yn 1789, a bu am gyfnod yn llywydd y llys a fu'n barnu Warren Hastings.

Yr oedd yn arglwydd-raglaw sir y Fflint, 1796-8, ac yn 'Custos Rotulorum' y sir o 1796 hyd ei farwolaeth. Priododd, 16 Hydref 1773, yn Deane, sir Lancaster, ei gyfnither Mary, trydedd merch George Kenyon, Peel, a'i wraig Peregrina, merch ieuengaf a chyd-aeres Robert Eddowes; bu iddynt dri mab - LLOYD (1775 - 1800), GEORGE (1776 - 1855), a THOMAS (1780 - 1851). Bu farw ar 4 Ebrill 1802 yn Bath, a dilynwyd ef gan ei ail fab

GEORGE KENYON, ail arglwydd Kenyon (1776 - 1855)

Cafodd ei addysg yn ysgol Harrow ac yng Ngholeg Eglwys Crist, Rhydychen (B.A. 1797, M.A. 1801, D.C.L. 1814). Daeth yn 'Custos Brevium' Llys Maicn y Brenin, yn fargyfreithiwr yn 1793 (o'r 'Middle Temple'), yn 'Bencher' 1811, yn 'Reader' 1815, ac yn drysorydd 1823. Priododd, 1 Chwefror 1803, Margaret Emma (1785 - 1815), merch **Syr Thomas Hanmer, barwnig**, a Margaret, merch a chyd-aeres George Kenyon, Peel, unig fab ac aer George Kenyon, Peel; bu iddynt dri mab a thair merch. Yr oedd yn un o is-lywyddion cyntaf y 'National Society,' ac adeiladodd y 'Madras School' yn Penley, Sir y Fflint, yr ysgol gyntaf i'w hagog yng Nghymru gan y gymdeithas honno. Bu farw yn Gredington, 25 Chwefror 1855, a dilynwyd ef gan ei fab

LLOYD KENYON, 3ydd arglwydd KENYON (1805 - 1869)

Ganed yn Gredington, 1 Ebrill 1805, a chafodd ei addysg yn ysgol Harrow a Choleg Eglwys Crist, Rhydychen (ymaelodi 1823, B.A. 1826, M.A. 1829). Bu'n aelod seneddol (Ceidwadwr) dros S. Michael's, Cernyw, 1830-2. Ceisiodd gael ei ddewis yn aelod dros sir Ddinbych yn etholiad 1833, ond ni lwyddodd. Priododd, 29 Mehefin 1833, Georgina, merch ieuengaf Thomas de Grey, 4ydd arglwydd Walsingham, a bu iddynt bum mab a phum merch. Bu farw yn Eastbourne, 24 Gorffennaf 1864, a chladdwyd ef yn Hanmer.

Dilynwyd ef gan ei ŵyr

LLOYD, 4ydd arglwydd Kenyon (1864 - 1927)

Mab Lloyd Kenyon (1835 - 1865) a **Fanny Mary Katherine**, unig blentyn John Ralph Ormsby-Gore, yr arglwydd Harlech 1af, trwy ei wraig Sarah, merch ieuengaf ac aeres Syr John Tyssen Tyrell, barwnig, Boreham House, Essex. Ganwyd 5 Gorffennaf 1864, bu'n ddirprwy-ganghellor Prifysgol Cymru o 1920 hyd 1927, ac yn llywydd Coleg y Gogledd o 1900 hyd 1927. Bu farw 30 Tachwedd 1927.

GEORGE THOMAS KENYON (1840 - 1908)

Ail fab y 3ydd arglwydd Kenyon. Fel ei frodyr, cafodd ei addysg yn ysgol Harrow a Choleg Eglwys Crist, Rhydychen. Fe'i derbyniwyd yn fargyfreithiwr yn 1869, eithr am ei fod â'i fryd ar fywyd gwleidyddol nid ymarferodd â'r gyfraith. Ar ôl colli ddwywaith, eithr â dim ond ychydig o bleidleisiau'n fwy gan ei wrthwynebydd, yn 1874 ac 1880, fe'i hetholwyd dros fwrdeisdrefi Dinbych yn 1885; cynrychiolodd yr etholaeth honno hyd 1895 ac eilwaith o 1901 hyd 1906. Ni safodd yn etholiad 1895, eithr gwnaeth hynny yn 1897 yn etholaeth dwyrain Dinbych, ond ni lwyddodd. Yr oedd iddo ddiddordeb arbennig mewn addysg, a bu'n gyfrifol i raddau helaeth am basio y 'Welsh Intermediate Education Act.' Gan ei fod yn ei ddiddori ei hun gymaint yn natblygiad Wrecsam a'r gymdogaeth, daeth yn gadeirydd cyntaf y 'Wrexham and Ellesmere Railway Company.' Priododd, 1875, Florence Anna, merch John Hurlleston Leche, Carden, sir Gaer; goroesodd hi ei gŵr. Bu ef farw 8 Gorffennaf 1908.

Ŵyr Thomas, 3ydd mab yr arglwydd Kenyon cyntaf, oedd yr ysgolhaig Groegaidd a Beiblaidd enwog Syr FREDERIC GEORGE KENYON (1863 - 1952), Cyfarwyddwr yr Amgueddfa Brydeinig.

Awdur

Yr Arglwydd Lloyd Tyrell- Kenyon, (1917 - 1993), Sir Amwythig

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

Reports of the Historical Manuscripts Commission, 14th R., App. iv, 1894

G. T. Kenyon, *The Life of Lloyd, First Lord Kenyon, Lord Chief Justice of England* (Llundain 1873), 1873

Burke's â€ ; *Peerage, Baronetage, and Knightage*

Alumni Cantabrigienses

Darllen Pellach

T. Marchant Williams, *Welsh Members of Parliament, 1894* (Cardiff 1894)

Erthygl Wicipedia: Lloyd Kenyon, Barwn 1af Kenyon

Erthygl Wicipedia: George Thomas Kenyon

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 17584069

Wikidata: Q6662537

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Kenyon, Ll. T., (1953). KENYON (TEULU). *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-KENY-ON0-1694>

Bywgraffiadur

Prefatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Yn ddiogel gan
Llywodraeth Cymru
Powered by
Welsh Government